FIN(4)-05-11 Paper 1 Annex C

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Eich Arian -

## Cyllideb Twf a Swyddi

Hydref 2011

www.cymru.gov.uk

**Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2012-13 yn nodi cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf. Mae'r cynigion yn gydnaws â'n Rhaglen Lywodraethu sy'n amlinellu'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni, y prif gamau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau a sut y byddwn yn monitro'r cynnydd.**

Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, rydym wedi gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r blaenoriaethau sy'n bwysig i bobl Cymru – swyddi a thwf, addysg, iechyd a chymunedau cryfach.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyflwyno'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2012-13 a 2014-15. Fe'i lluniwyd i annog twf economaidd ac i gefnogi swyddi, tra'n sicrhau cydraddoldeb, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer Cymru gyfan, a diogelu'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed.

Mae'r Gyllideb yn cynnwys amrywiaeth o fesurau a fydd yn cefnogi swyddi, ac yn helpu busnesau yng Nghymru i gystadlu a thyfu.
Mae'n cadarnhau dull mwy strategol o fuddsoddi cyfalaf, sy'n hanfodol i wasanaethau cyhoeddus modern ond hefyd yn angenrheidiol i gefnogi'r economi. Byddwn yn datblygu Cynllun Seilwaith Cenedlaethol ac yn cymryd cyfleoedd i roi hwb i fuddsoddi yn seilwaith Cymru drwy amrywiaeth o ddulliau arloesol.

Byddwn yn parhau i wella caffael ar draws sector cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau nwyddau a gwasanaethau effeithiol a gwerth am arian. Bydd ein cymunedau'n elwa o'n cefnogaeth ni i economi Cymru drwy'r defnydd creadigol o gontractau i ddarparu gwaith lleol a chyfleoedd hyfforddi newydd.

Byddwn yn dyrannu dros £129 miliwn yn ystod y tair blynedd i gefnogi ein 'Pump am Ddyfodol Tecach'.

**Bydd dyraniadau'n cynnwys:**

- cyllid i ddarparu ein cynllun Twf Swyddi Cymru newydd. Bydd y cynllun hwn, sy'n werth £75 miliwn, yn cefnogi pobl ifanc a busnesau, ac yn rhoi iddynt hyfforddiant addas a chyfleoedd am swyddi;
- mwy o wariant rheng flaen ar gyfer ysgolion, gyda £27 miliwn yn ychwanegol yn 2014-15;
- cyllid ychwanegol a fydd yn sicrhau 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd yr Heddlu; a
- £55 miliwn dros dair blynedd i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar y Rhaglen Dechrau'n Deg.

Yn ystod y tair blynedd nesaf byddwn yn buddsoddi £288 miliwn yn fwy yn y gwasanaeth iechyd er mwyn cynnal a moderneiddio gwasanaethau o ansawdd uchel.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes llwyddiannus o ran rheoli ein hadnoddau, ond mae'r toriadau gan Lywodraeth San Steffan yn mynd yn rhy bell yn rhy sydyn. Dyna pam bod pecyn ariannu tecach i Gymru, sy'n rhoi'r gallu inni fenthyca er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf, yn flaenoriaeth mor bwysig. Byddwn yn parhau i chwarae rôl adeiladol mewn trafodaethau rhynglywodraethol i adolygu cyllid Cymru a gweithio'n agos â'r Comisiwn Datganoli yng Nghymru i ystyried datganoli rhagor o bwerau ariannol.

**Jane Hutt**

Jane Hutt

*Y Gweinidog dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ*

